Cyngor Cymuned Pistyll

**Cofnodion Cyngor Cymuned Pistyll**
**A gynhaliwyd yn y Ganolfan Llithfaen**
**Nos Fawrth 9fed o Chwefror ’16 am 7:30y.h**

**Yn Bresennol**

Cynghorwyr –, William Jones, Emlyn Hughes, Gwilym Williams, Gwyn Roberts, John Owen, Dafydd Roberts, Sianelen Pleming,a’r cyng. Aled Jones.

**Ymddiheuriadau**
Lisbeth James

**Hysbysebiadau y Cadeirydd**

Croesawyd pawb i’r cyfarfod gan y Cadeirydd William Jones.
Cytunodd Sianelen Pleming i glercio i’r cyngor dros dro hyd nes y daw enw arall gerbron.

**Dangos Diddordeb**

Dim

**Cofnodion**

Cynigodd Gwilym Williams bod y cofnodion yn gywir ac eiliodd Dafydd Roberts. Nodod y cynghorydd Aled Jones ei fod yntau hefyd yn y cyfarfod.

**Materiob yn codi o’r cofnodion**

- **Biniau halen -** Nid oedd y cyng AJ wedi derbyn gohebiaeth y cyngor parthed y biniau halen ond roedd wedi cael sgwrs efo Steffan Jones. Mae’r biniau eu hunain yn gyfrifoldeb Cyngor Gwynedd a bydant hwy yn adnewyddu/ trwsio unrhyw fin diffygiol. Mae cyflenwi’r biniau yn gyfrifoldeb y Cyngor Cymuned ond nid yw yn ddyletswydd statudol. Deallwyd mai Cyngor Gwynedd fyddai yn ail lenwi’r biniau ac anfon bil i’r Cyngor Cymuned. Eglurwyd bod llythyr yn dod yn yr wythnos nesaf yn egluro’r taliadau. (g. E-bost)
- **Golau Tynyparc -** Dafydd Roberts wedi cyfarfod dau swyddog o’r cyngor. Nid oes problem rhoi golau gan bod polyn cyfagos yng nghae Bwlch y Mynydd ond bod angen ei ariannu. Mae’r swyddogion yn dod yn ôl efo pris a bydd trafodaeth bellach i ddigwydd rhwng Tynyparc a Chyngor Gwynedd.
- **Dŵr yr Eifl –** Hafn wedi ei chrafu ar draws y ffordd ger Brynffynnon i’r dŵr wast lifo iddi.
- **Gwlis**

Clerc / Clerk: Sianelen Pleming
sianelen@live.co.uk 01758 750 462

Cyngor Cymuned Pistyll

1) **Pistyll –** Mae'r sefyllfa yn waeth ar ôl glaw y penwythnos diwethaf. Eglurwyd bod Cyngor gwynedd yn gwadu perchnogaeth o'r lôn er bod y Cyngor wedi bod yn ei thrin a'i defnyddio.

2) **Llithfaen(lôn Rhosydd) –** dim wedi digwydd parthed y gwli yma chwaith.

Penderfynwyd y byddai y cynghorydd Aled Jones yn cysylltu ynglŷn â'r ddwy sefyllfa.

- **Golau Stryd ger yr Hen Eglwys** – nid oedd sicrwydd oedd y gwaith wedi ei wneud.
- **Prydles y ganolfan** – Mae'r brydles ar ddesg ym Mangor ar hyn o bryd yn aros i gysoni holl brydlesi'r Sir cyn eu hanfon allan. Bydd yn cael ei anfon allan yn fuan.

**Ceisiadau Cynllunio**

Dim.

**Gohebiaeth**

- Llythyr gan gyfreithiwr yr henaduriaeth. Petai gwerthiant y capel yn mynd yn ei flaen yn holi beth fyddai'r sefyllfa parthed y gofgolofn. Noda'r llythyr mae pwrpas y llythyr yw agor trafodaeth efo'r Cyngor er mwyn diogelu hawliau mynediad at y gofgolofn er mwyn coffau a gwneud gwaith cynnal a chadw. (g. Llythyr). Dafydd Roberts am gysylltu efo'r cyfreithiwr (Bryn Williams).

**Ceisiadau Ariannol**

- Cais arianol gan Aelwyd Gwrtheyrn.
- SP i ofyn am geisiadau ariannol y misoedd diwethaf.

**Unrhyw Fater Arall.**

- Awgrym nad oedd bin 9 (24018) ym mhlwyf Pistyll.
- SP wedi llythyru efo Cyngor Gwynedd parthe gosod hysbysfwrdd. Heb gael ateb eto.

**Cyfarfod nesaf - nos Fawrth, 8fed o Fawrth am 7:30 y.h.**

Clerc / Clerk: Sianelen Pleming
sianelen@live.co.uk 01758 750 462